

Cyngor Cymuned Betws-y-Coed
Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar y 11eg Ebrill 2022.

Presennol- Mari E M Mathews Cadeirydd Janet Charlton, Anna Brown, Catherine Williams, Cyng Elisabeth Roberts Cyngor BS Conwy, Caerwyn Roberts, Clerc.

Ymddiheuriadau – Neil Pringle, Beth Thomas, Catherine Williams.

Ethol Cadeirydd. Penderfynwyd yn unfrydol i ethol Mari E M Mathews yn Gadeirydd.

Datgan diddordeb. Dim datganiad.

Dywedodd y clerc bod y Cyng Gareth Wynne a Gwawr Jones wedi ymddeol o'r Cyngor.

Cadarnhawyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar y 21ain Fawrth 2022

Materion yn codi

[1] Yr Heddlu

Nid oedd yr heddlu'n bresennol. Y clerc i wneud ymholiad ynglŷn â threfniadau i benodi SCHG ar gyfer y gymuned

[1.1] Pont Droed yn uwch i fyny'r afon o Bont-y-Pair

Dywedodd y clerc iddo gysylltu gyda ymgynhorwyr Matt Macdonald a'i fod yn disgwyl gair ganddynt ynglŷn ag ymweliad a'r safle.

[1.2] Tai Fforddiadwy/ Cartrefi Conwy

Dywedodd y Cyng E Roberts bod y Gymdeithas Tai yn parhau i ddisgwyl am ganiatâd cynllunio.

[1.3] Caffi 'r Rheilffordd Fach

Eglurodd y clerc nad oedd gwybodaeth pellach ynglŷn ag ymweliad i'r safle gan swyddog gorfodaeth y Parc Cenedlaethol

[1.4] Materion Parcio Bro Gethin

Nodwy'r wybodaeth gan Cyngor BS Conwy a Chartrefi Conwy ynglŷn â'r posibilrwydd o greu partneriaeth.

[1.5] Llystyfiant Pont-y-Pair

Eglurodd y Cyng E Roberts nad oedd dyddiad wedi ei benodi ar gyfer dechrau'r gwaith.

[1.6] Dyn mewn Fan

Nodwy bod y mater wedi ei ohirio'r nes bydd cyfle i gwrdd gydag Edward Jones APCE ynlgun a gwaith cynhaliath leol.

[1.7] Ynys y Ffynidwydden/ Afon Llugwy

Deallwyd gan Haf Jones fod yr ynys yn berchnogaeth Cyngor BS Conwy .

[1.8] Atgyweirio/Pont-y-Soldiwr

Dywedodd y Cyng E Roberts y dylai'r gwaith fod wedi dechrau a bod disgwyliad cwblhad ymhen 6 wythnos.

[1.9] Holiadur Cymuned

Eglurodd y Cyng Mari E M Mathews bod yr ymateb hyd hyn yn galonogol. Nodwyd y dyddiad cau 22ain Fai 2022

[2] Materion Sbwriel Maes Parcio Ffordd yr Orsaf

Dywedodd y Cyng Elisabeth Roberts bod y Parc Cenedlaethol wedi cytuno i osod camerâu cylch agos yn Faes Parcio'r aroshiad hir.

[2.1] Cyfarpar Chwaraeon Cae Llan

Dywedodd y Cyng E Roberts bod trafodaeth yn parhau

Y Brif Agenda

[2.2] Materion Ariannol

[a] Cymeradwywyd y taliadau a'r derbyniadau a amlinellwyd gan y clerc i ddiwedd Mawrth

[b] Dywedodd y clerc bod y nifer yn ymweld ar Rhaeadr Ewynnol yn gwella yn dilyn y cyfnod y bu ar gau yn o ganlyniad cofid.

Mandad Banc - Penderfynwyd i Janet Charlton ac Anna Brown ynghyd a'r clerc fod yn gyfrifol am lofnodi sieciau'r Cyngor.

[2.3] Min yr Afon Pont-y-Pair

Cyfeiriodd y clerc at gynigion gan Gyngor BS Conwy I wneud gwelliannau ar fin yr afon gyda chostau o ddeutu £11,500.00 heb gynnwys TAW. Byddai cyfraniad y Gyngor Cymuned yn £1650.00.

Penderfynwyd gefnogi'r cynllun.

[2.4] Eglwys Santes Fair

Penderfynwyd cefnogi'r Eglwys yn y bwriad i osod deuddeg cloch yn y twr ynghyd ac adnewyddu'r cloc.

Mari E M Mathews, Cadeirydd